

| | |
|----------|--|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd |
| DYDDIAD | 26 ^a in Mehefin, 2018 |
| PWNC | Merched mewn Democraataeth |
| PWRPAS | Adrodd ar y gwersi a ddysgwyd o gynhadledd i hybu rol merched mewn Democraataeth, ac adnabod y camau gweithredu nesaf. |
| AWDUR | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd |

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd ar y 26ain o Hydref, 2017 cafwyd trafodaethau ynghylch parhau i geisio hybu amrywiaeth mewn democraataeth. Adroddwyd fod cryn waith wedi ei wneud gan is-grwp o'r pwyllgor cyn etholiadau Mai 2017 er mwyn ceisio annog mwy o amrywiaeth, yn arbennig ym maes
 - Pobl ifanc
 - Merched
 - anabl
2. Penderfynodd y Pwyllgor fod y gwaith yma yn allweddol bwysig ac fod lle i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes, ac felly sefydlwyd is-grwp o'r newydd.
3. Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, mae llawer i'w ddysgu trwy fynychu cyrsiau neu seminarau ar ran y Cyngor, ac os yw hynny'n digwydd, yna mae'n hanfodol fod Aelodau yn adrodd yn ôl am yr hyn y maent wedi ei ddysgu.
4. Bu i'r Cyngorydd Catrin Wager fynychu cynhaldedd 'Merched Mewn Democraataeth' fel aelod o'r pwyllgor hwn. Rhoddir adroddiad ar lafar gan y Cyngorydd yn ystod y cyfarfod.
5. Roedd yr hyn a drafodwyd yn ystod y gynhadledd yn seiliedig ar ddarganfyddiadau y Gymdeithas Fawcett / Fawcett Society. Cyhoeddwyd adroddiad manwyl ganddynt yng Ngorffennaf 2017 – "A yw Llywodraeth Leol yn gweithio i Ferched?" yn seiliedig ar waith ymchwil trylwyr.
6. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion ar gyfer annog mwy o ferched i sefyll mewn etholiadau ar gyfer llywodraeth leol ac yn cynnig argymhellion ar sut i wella amgylchiadau o fewn llywodraeth leol, gan ganolbwyntio ar sicrhau fod gweithdrefnau yn deg i ferched.

7. Mae'r argymhellion gan Gymdeithas Fawcett yn amrywiol, gan gynnwys yr isod ymhlith eu hargymhellion;

- casglu a chyhoeddi data am broffil a chyflogau fesul rhyw o fewn awdurdodau lleol
- newid diwylliant,
- rôl grwpiau gwleidyddol,
- ymgysylltu gyda merched sy'n weithredol yn eu cymunedau er mwyn eu hannog i sefyll fel Cynghorwyr
- rôl Cyngorau Lleol i gefnogi aelodau
- polisïau penodol i gefnogi aelodau etholedig ee absenoldeb mamolaeth ayyb
- uchafswm o 4 tymor fesul aelod
- cefnogi merched i gymryd rolau arweinyddol o fewn llywodraeth leol
- fforymau mentora ar gyfer aelodau sy'n ferched er mwyn cynnig cefnogaeth i'r naill a'r llall.

8. Mae adroddiad y Comisiwn ar eu safle we.

9. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y negeseuon y mae'r Cyngorydd Catrin Wager yn eu cyflwyno, gan adnabod y ffordd ymlaen ar gyfer y gwaith o hybu democratiaeth mewn llywodraeth leol.